**EDC-02-00(P.2)**

**PWYLLGOR DATBLYGU ECONOMAIDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | **26 Ionawr 2000** |
| **Lleoliad:** | **Ystafell Bwyllgora 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru** |
| **Teitl:** | **Rheoli Swyddogaethau Menter y Cynghorau Hyfforddi a Menter yn y dyfodol** |

**Diben**
Diben y papur hwn yw bwrw golwg ar y prif ddewisiadau ar gyfer rheoli'r swyddogaethau menter a wneir ar hyn o bryd gan y Cynghorau Hyfforddi a Menter ar ôl sefydlu Cyngor Addysg a Hyfforddiant Cymru yn mis Ebrill 2001. Penderfynodd y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 15 Rhagfyr y byddai'n ystyried y mater fel rhan o'i arolwg o'r gwasanaethau sydd ar gael i gynnal a datblygu busnesau. Disgwylir i'r arolwg hwnnw ddod i ben erbyn y Pasg**.**

**Argymhellion**
2. Bod y Pwyllgor yn :-
a. ystyried prif gasgliadau'r papur hwn; ac yn
b. cytuno y dylai'r Pwyllgor ofyn am farn y prif grwpiau sydd â diddordeb a restrir ym mharagraff 7 fel blaenoriaeth a helpu i gyflwyno argymhellion cynnar i'r Ysgrifennydd dros Ddatblygu Economaidd ar y mater hwn.

**Rhaglen Fenter y Cynghorau Hyfforddi a Menter**
3. Mae Rhaglen Fenter y Cynghorau Hyfforddi a Menter yn cynnwys nifer o gynlluniau gwahanol, bob un ohonynt wedi'i gynllunio i helpu i ddatblygu busnesau bach a chanolig (BBaCh) cynhenid yng Nghymru. Mae pedwar llinyn i'r rhaglen – datblygu adnoddau dynol (gan gynnwys Buddsoddwyr mewn Pobl); Cychwyn Busnesau Newydd; Gwasanaeth Diagnostig ac Ymgynghori; a'r Fenter Masnachwyr Unigol. Mae'r Cynghorau Hyfforddi a Menter hefyd yn cynnal nifer o weithgareddau cynnal cyffredinol eraill ar gyfer busnesau– er enghraifft, rhwydweithio rhwng cwmnïau.

4. Mae dros 4,000 o fusnesau bach a chanolig yn derbyn cymorth bob blwyddyn o dan raglen fenter y Cynghorau Hyfforddi a Menter ac mae 60-70 o staff y Cynghorau (staff maes yw nifer ohonynt) wrthi'n rheoli'r gwaith hwn (rhyw 10% o holl staff y Cynghorau). Ceir cyllideb o ryw £10 miliwn ar gyfer 1999-2000 (a ariennir yn uniongyrchol gan y Cynulliad Cenedlaethol o dan y Rhaglen Cynnal Busnesau a Mentrau).

**Prif Gynlluniau a Dewisiadau Posibl ar gyfer y Dyfodol**
5. Disgrifir prif swyddogaethau menter y Cynghorau Hyfforddi a Menter yn fras isod, yn ogystal ag asesiad cychwynnol o'r dewisiadau posibl ar gyfer rheoli a darparu'r swyddogaethau yn y

dyfodol.

**a. Datblygu Adnoddau Dynol** [dyraniad cyllideb gan y Cynghorau o £5.0 miliwn – yn gwasanaethu hyd at c.2,500 o gyrff y flwyddyn]. Mae'r Cynghorau Hyfforddi a Menter yn rheoli 3 chynllun datblygu gweithlu sy'n perthyn i'w gilydd ac mae pob un ohonynt yn helpu busnesau bach a chanolig i glustnodi a bodloni'r angen am ddatblygu a hyfforddiant. Maent yn cynnwys :-

> Buddsoddwyr mewn Pobl – mae'r Cynghorau Hyfforddi a Menter yn hybu Buddsoddwr mewn Pobl ar lefel leol ac yn helpu cyrff unigol, boed fach neu fawr, i gyrraedd y safon. Mae'r Cynghorau'n cefnogi cyrff yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol.
> Menter Hyfforddi Cwmnïau Bach - mae'r cynllun hwn wedi'i anelu'n benodol at gwmnïau bach y sector preifat (sy'n cyflogi llai na 50). Drwy weithiwr allweddol, caiff cynllun hyfforddi'r cwmni ei ddatblygu a'i roi ar waith.
> Datblygu Rheolwyr – Mae'r Cynghorau Hyfforddi a Menter yn cynnal ystod o weithgareddau i helpu BBaCh i ddatblygu medrau eu rheolwyr – gan gynnwys cymorth ariannol i reolwyr unigol ddilyn NVQs a defnyddio ymgynghorwyr i helpu gwella timoedd rheoli'r cwmni.

Mae'r Cynghorau Hyfforddi a Menter yn ategu'r cynlluniau hyn – o'u cyllideb dewisol neu o'r arian sy'n weddill ganddynt – trwy ddysgu sgiliau i gwmnïau sy'n ehangu neu'n mewnfuddsoddi, er mwyn helpu diogelu'r swyddi o dan sylw. Mae cymorth o'r fath weithiau wedi'i anelu at ddileu'r bwlch mewn rhai sgiliau penodol.

**Dewisiadau Rheoli yn y Dyfodol (datblygu adnoddau dynol – DAD)**
5.1 Trosglwyddo i Gyngor Addysg a Hyfforddiant Cymru (CAHC). Yn eu hanfod, mae'r holl gynlluniau hyn yn ymwneud â datblygu sgiliau'r gweithlu. Bydd y swyddogaeth honno yn ategu'r mathau eraill o gymorth ar gyfer hyfforddi sgiliau cyflogwyr y bydd CAHC yn gyfrifol amdanynt. Bydd gweithio drwy swyddfeydd rhanbarthol CAHC a'r staff maes a fydd yn gweithio oddi yno yn sicrhau parhad yn y trefniadau darparu presennol ac yn cadw cysylltiadau sy'n bodoli'n barod rhwng y prif gynlluniau datblygu adnoddau dynol sy'n berthnasol i fusnesau. Dylai helpu i hwyluso cysylltiadau hefyd rhwng CAHC a Chyngor Rheoli Cymru (corff cynrychioli diwydiant sy'n annog datblygiadau rheoli ehangach a mwy effeithiol yng Nghymru).

5.2 Trosglwyddo i'r WDA. I raddau, ni fyddai trosglwyddo'r gweithgareddau datblygu adnoddau dynol pwysig hyn yn mynd yn groes i'r rhaglenni datblygu busnes cyfredol. Er hynny, mae rôl yr Awdurdod o ran sgiliau yn y gweithle wedi bod yn gyfyngedig iawn hyd yma; ac mae'n gwestiwn a ydynt yn meddu ar y medrau/arbenigeddau rheoli sydd eu hangen i gyflawni'r swyddogaethau hyn – yn enwedig o gadw'r bwriad i drosglwyddo swyddogaethau Bae Caerdydd yn ddiweddarach eleni mewn cof. Byddai unrhyw fwlch neu ddiffyg parhad yn drueni, yn enwedig mewn cyfnod mor dyngedfennol o ran sicrhau arian Amcan 1 ac arian

cysylltiedig o Ewrop.

**b. Mathau eraill o gymorth a ddarperir gan Fentrau'r Cynghorau Hyfforddi a Menter**
5.3 Mae'r Cynghorau Hyfforddi a Menter hefyd yn rheoli'r tri chynllun canlynol ac mae pob un ohonynt yn ymwneud yn uniongyrchol â datblygu/twf busnesau. :-

i. Rhaglen Cychwyn Busnesau Newydd [dyraniad cyllideb gan y Cynghorau o £1.3miliwn – yn gwasanaethu hyd at 1,100 o fusnesau y flwyddyn]. Mae'n cynnwys annog mwy o fentrau o ansawdd da i gychwyn drwy ddatblygu cynlluniau datblygu, hyfforddiant mewn sgiliau perthnasol, etc – a thrwy gyngor parhaus a mathau eraill o gefnogaeth i helpu'r cwmnïau hyn i oroesi a thyfu. Mae trwch y rhaglenni yn cael eu darparu gan yr asiantaethau menter o dan gontract i'r Cynghorau Hyfforddi a Menter.
ii. Menter Masnachwyr Unigol [dyraniad cyllideb gan y Cynghorau o £0.4miliwn – yn gwasanaethu hyd at 400-500 o fasnachwyr unigol neu weithwyr hunan-gyflogedig y flwyddyn]. Mae'r fenter hon yn unigryw i Gymru a'i bwriad yw creu swyddi newydd ac ehangu busnesau bach drwy helpu masnachwyr unigol i gyflogi'u gweithiwr cyntaf.
iii. Gwasanaeth Diagnostig ac Ymgynghori [dyraniad cyllideb gan y Cynghorau o £1.4miliwn – yn gwasanaethu hyd at 1500 o gwmnïau y flwyddyn]. Mae'r cynllun hwn yn helpu busnesau i edrych ar eu cryfderau/gwendidau a rhoi cymorth iddynt trwy ddarparu cymorth ymgynghorydd i fynd i'r afael â phroblemau sydd wedi'u clustnodi. Mae'n cynnwys 3 prif elfen: arolygon anffurfiol o fusnesau; arolygon diagnostig manylach; a gellir rhoi cymhorthdal i ymgynghorwyr allanol fynd i'r afael â materion sydd wedi'u clustnodi yn yr arolwg/astudiaeth ddiagnostig.

**Dewisiadau Rheoli yn y Dyfodol (datblygu mentrau)**
5.4 Gyda'i gilydd, mae'r tri chynllun yn becyn defnyddiol o fewn portffolio'r Cynghorau Hyfforddi a Menter. Byddai cadw'r cynlluniau gyda'i gilydd yn fanteisiol o safbwynt eu darparu a'u rheoli. O ran y prif ddewisiadau, maent yn cynnwys:-

i. <u>Trosglwyddo i'r WDA.</u> Byddai hyn yn cryfhau rôl y WDA o ran cefnogi busnesau cynhenid yng Nghymru a byddai'n ategu prif weithgareddau eraill yr Awdurdod, megis cydlynu Technoleg Ranbarthol a'r Cynlluniau Gweithredu Entrepreneuriaeth. Byddai'n bosibl parhau i'w darparu'n lleol drwy is-gontractau gydag Asiantaethau Menter. Mae datblygu busnesau cynhenid eisoes yn un o brif swyddogaethau'r WDA ac ni ddylai'r cynlluniau hyn beri problemau penodol o ran rheoli. Byddai, serch hynny, yn rhoi cyfrifoldeb pwysig arall yn nwylo'r WDA yn fuan ar ôl iddo gymhathu rhai swyddogaethau gweddilliol Corfforaeth Datblygu Bae Caerdydd [er y byddai'r rhain yn cael eu rhoi i ran wahanol o'r Awdurdod].
ii. <u>Trosglwyddo i Fwrdd Rheoli Cyswllt Busnes.</u> Byddai hyn yn cryfhau rôl y Bwrdd Rheoli mewn perthynas â'r rhwydwaith cynnal busnes. Byddai hefyd yn hwyluso dilyniant drwy is-gontractau gydag asiantaethau busnes eraill. Gallai cam o'r fath

dynnu sylw'r Bwrdd oddi ar ei brif waith o gynllunio a chydlynu strategaeth cymorth i fusnesau, a byddai perygl i hynny atgyfnerthu'r dybiaeth gyfeiliornus ymysg busnesau mai asiantaeth cynnal busnes (eto fyth) yn unig yw'r Bwrdd.

iii. Trosglwyddo i'r Asiantaethau Menter Lleol (o dan gontract i'r Cynulliad Cenedlaethol). Byddai hyn yn cryfhau rôl yr asiantaethau menter fel darparwyr cymorth lleol i fusnes a byddai'n rhoi elfen o ddilyniant i'r trefniadau presennol. Nid yw'r asiantaethau busnes yn gwasanaethu Cymru gyfan, er hynny, nid ydynt yn ymwneud â holl elfennau'r Gwasanaeth Diagnostig ac Ymgynghori. Byddai angen dod o hyd i ffyrdd o bontio'r "bylchau" hyn.

iv. Trosglwyddo i Awdurdodau Lleol. Byddai hyn yn cryfhau rôl datblygu busnes yr awdurdodau lleol, yn enwedig yn y sector busnesau bach/micro ac ni fyddai'n mynd yn groes i ddulliau eraill o gynnal busnesau a ddarperir gan y cynghorau (er enghraifft, grantiau/benthyciadau busnes). Gallai lefel y darparu drwy'r 22 awdurdod lleol arwain at anwastadrwydd ac at ddiffyg cydlyniad ar lefel Cymru gyfan.

**Ystyriaeth**

6. Mae swyddogaethau menter y Cynghorau Hyfforddi a Menter yn rhannu'n ddau gategori: y rhai sy'n ymwneud â datblygu sgiliau/ adnoddau dynol a'r rhai sy'n ymwneud yn fwy â datblygu busnesau yn gyffredinol. Mae'n debyg mai'r olaf fyddai fwyaf addas ar gyfer ei drosglwyddo i'r Cyngor Addysg a Hyfforddiant Cymru newydd; mae'r cynnig hwnnw eisoes wedi'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant ar ôl 16 oed, yn amodol ar farn y Pwyllgor Datblygu Economaidd. Er hynny, dewis mwy realistig i'r cynlluniau hynny a ddisgrifir ym mharagraff 5.3 – fyddai eu rhannu h.y. eu trosglwyddo i wahanol gyrff. Er hynny, byddai mynd ar drywydd y syniad olaf yn tanseilio'r "pecyn" busnes cyntaf, a byddai'r goblygiadau i staff hefyd yn fwy cymhleth. Wrth ystyried y dewisiadau, rhaid gwahaniaethu rhwng comisiynu a darparu gwasanaethau.

**Cyngor**

7. Fel ag a nodir uchod, ceir yma nifer o ddewisiadau. Fel y cam nesaf ac i helpu'r Pwyllgor i ddewis, argymhellir bod barn y cyrff canlynol yn cael eu clywed :-

Awdurdod Datblygu Cymru
Cyngor Cynghorau Hyfforddi a Menter Cymru
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Menter Cymru (ar ran yr Asiantaethau Menter)
Busnes Cymru
TUC Cymru
Menter Gymunedol

I helpu'r broses o gynllunio i'r dyfodol ac er mwyn sicrhau bod y cynllun gweithredu yn parhau ar ei drywydd, awgrymir y dylai Cadeirydd y Pwyllgor ysgrifennu at y cyrff hyn yn syth ar ôl cyfarfod 26 Ionawr gan ofyn iddynt am eu barn. Yna, gall y Pwyllgor lunio ei farn ei hun a

hysbysu Ysgrifennydd y Cynulliad dros Ddatblygu Economaidd o argymhellion y pwyllgor fel un o ganlyniadau cyntaf yr arolwg o'r cymorth i fusnesau.

**Cydymffurfio**

8. Mae pwerau'r Cynulliad yn y maes hwn yn deillio o Adran 11 Deddf Datblygu Diwydiannol 1982 ac Adran 2 Deddf Cyflogaeth a Hyfforddiant 1973; a'r swyddogaethau perthnasol sydd wedi'u dirprwyo yng Nghymru i'r Ysgrifennydd dros Ddatblygu Economaidd. Nid oes unrhyw fater ynghylch rheoleidd-dra na phriodoldeb.

**Goblygiadau Ariannol**

9. Mae'r cwestiwn ynghylch rheoli swyddogaethau busnes y Cynghorau Hyfforddi a Menter yn y dyfodol yn deillio o benderfyniad y Cynulliad i sefydlu Cyngor Addysg a Hyfforddiant Cymru newydd. Mae goblygiadau ariannol cyffredinol yr ad-drefnu wrthi'n cael eu harchwilio – ac mae trosglwyddo swyddogaethau busnes y Cynghorau Hyfforddi a Menter yn rhan o'r asesiad hwnnw. Cyn dod i benderfyniad terfynol, bydd angen i'r Cynulliad gadw unrhyw wahaniaethau yng nghost yr amrywiol ddewisiadau mewn cof.

**Ionawr 2000 Adran Gwasanaethau Busnes**